

Sŵn wrth ymgymryd â gwaith DIY

Bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o bobl ymgymryd â gwaith DIY o amgylch y tŷ rywbryd. Gallai hynny amrywio o waith ar raddfa fach megis gosod llun ar y wal i waith ar raddfa fwy megis adnewyddu eiddo'n llwyr. Mae pobl yn aml yn gorfod ymgymryd â'r math hwn o waith y tu allan i'w gwaith o ddydd i ddydd, sy'n golygu bod y gwaith DIY yn aml yn cael ei wneud gyda'r nos neu ar benwythnosau. Gall hyn, ynghyd â'r ffaith bod gwaith o'r math hwn yn gallu bod yn swllyd, beri i gymdogion gwyno. Bwriad y daflen hon yw darparu rhai camau syml y gellir eu cymryd i geisio

sicrhau eich bod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar eich cymdogion.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau amser wedi'u nodi yn neddfwriaeth y DU o ran pryd y gellir neu na ellir ymgymryd â gwaith DIY. Nid yw hyn yn golygu bod gan bobl yr hawl i ymgymryd â gwaith o'r fath fel y dymunant, os yw'n debygol o darfu ar eu cymdogion. Dylid rhoi ystyriaeth i'r sŵn y gallai'r gwaith ei greu a fydd yn tarfu ar gymdogion, trwy sicrhau bod cymdogion yn cael y seibiant sydd ei angen arnynt.

Amserau rhesymol i ymgymryd â gwaith DIY:

Amlinellir yr hyn y byddem yn ei ystyried yn amseroedd rhesymol i ymgymryd â gwaith DIY yn y rhan fwyaf o amgylchiadau isod:

- Dydd Llun – Dydd Gwener - 08:00 – 20:00
- Dydd Sadwrn - 09:00 – 19:00
- Dydd Sul - 10:00 - 17:00

Beth i'w wneud cyn dechrau gwaith DIY:

Siaradwch â'ch cymydog cyn dechrau unrhyw waith DIY. Rhowch wybod iddo beth yr ydych yn bwriadu ei wneud, pa mor hir y bydd y gwaith yn debygol o bara, a'r amserau yr ydych yn bwriadu gweithio. Pan fyddwch wedi cytuno ar yr amserau hyn, peidiwch â'u newid. Rhowch sylw priodol i unrhyw bryderon sydd ganddo a chyfaddawdu lle bo'n bosibl er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Rhowch eich rhif cyswllt iddo fel ei fod yn gallu cysylltu â chi os oes ganddo unrhyw bryderon neu gwynion yr hoffai eu trafod.

Gwneud cwyn ynghylch sŵn:

Os bydd gwaith DIY yn tarfu arnoch, rydym yn eich cynghori, os yw'n ddiogel gwneud hynny, i fynd at eich cymydog a thrafod eich cwyn gyda ef yn gyntaf. Os na fydd y mater yn cael ei ddatrys, mae croeso ichi gysylltu â ni ar **01267 234567**, neu gallwch cyflwyno cwyn ar-lein ynghylch sŵn neu e-bostio: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk. Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn yn unol â'n gweithdrefn cwynion sŵn. Ein nod yw datrys cwynion yn anffurfiol lle bo hynny'n bosibl, ond mae gennym bwerau cyfreithiol pe bai'r sŵn yn ormodol ac yn Niwsans Statudol. Yn yr achosion hyn, byddwn yn ystyried cyflwyno rhybudd cyfreithiol i'r person sy'n gyfrifol, gan ofyn iddo gymryd mesurau i leihau'r sŵn, megis cyfyngu ar yr amseroedd y caniateir iddo ymgymryd â'r gwaith.

Ystyriaethau wrth ymgymryd â gwaith DIY:

- **Radio** - Mae gwaith DIY a gwranddo ar gerddoriaeth/radio fel arfer yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Dylech roi ystyriaeth i lefelau sŵn y radio/cerddoriaeth er mwyn sicrhau bod y sŵn yn tarfu cyn lleied â phosibl ar eich cymdogion.
- **Waliau Cydrannol** - Mae'n bosibl y bydd gwaith ar waliau cydrannol yn swnio'n uchel iawn i'ch cymydog a gall hyd yn oed tasgau tawelach megis llyfnu'r wal swnio'n uchel os cânt eu gwneud ar wal gydrannol. Felly dylech roi ystyriaeth i'r amserau pryd yr ydych yn ymgymryd â'r math hwn o waith er mwyn sicrhau bod y sŵn yn tarfu cyn lleied â phosibl ar eich cymdogion. Mae'n bosibl y bydd angen ichi hefyd fodloni gofynion y Ddeddf Waliau Cydrannol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Rheoliadau Adeiladu.
- **Gwaith swllyd** - Ceisiwch ymgymryd â gwaith swllyd megis drilio a morthwyllo rhwng 10am – 4pm er mwyn lleihau tarfu ar eich cymdogion. Hefyd, bydd cael seibiant yn awr ac yn y man yn helpu'r sefyllfa.
- **Offer** - Gwnewch yn siŵr bod yr offer yr ydych yn eu defnyddio yn cael eu cynnal a'u cadw mewn modd priodol a'u bod yn addas i'r diben. Yn aml, bydd offer anghywir ar gyfer y dasg neu hen offer sydd mewn cyflwr gwael yn creu mwy o sŵn nag sy'n angenrheidiol.

